Ein cyf: MB/EH/1229/09
Eich cyf:

Eleanor Burnham AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

10 Rhagfyr 2009

Annwyl Eleanor

Yn ystod Cwestiynau'r Prif Weinidog ar 24 Tachwedd, mynegoch bryderon am ddarpariaeth gwasanaethau cadair olwyn ledled Cymru. Addawodd y Prif Weinidog y byddwn yn ysgrifennu atoch ynghylch y pwyntiau a godwyd gennych.

Mae'r amser y mae rhai cleifion yn aros i gael eu hasesu, ac i dderbyn cadeiriau olwyn, yn achos pryder imi. Mae darparu gwasanaethau cadair olwyn yn gyfrifoldeb ar y Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar (ALAS) yn bennaf. Nid yw hwn yn wasanaeth i Gymru gyfan, ond mae wedi'i leoli mewn dwy ganolfan; yng Nghaerdydd a Wrecsam. Mae adolygiad o'r ddarpariaeth o gadeiriau olwyn a seddi arbennig ar y gweill yng Nghymru.

Mae uwch-swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn cydweithio â gweithwyr iechyd proffesiynol, rhanddeiliaid allweddol eraill, a defnyddwyr gwasanaethau, i adolygu'r ddarpariaeth bresennol, nodi unrhyw fylchau ac ystyried sut y gellid gwella gwasanaethau. Cam cyntaf yr adolygiad hwn oedd asesu'r drefn bresennol ar gyfer darparu cadeiriau olwyn (cymhleth a safonol) drwy wasanaeth ALAS, a chynghori ar unrhyw ddulliau posibl o leihau amseroedd aros.

Cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig ar argymhellion adroddiad cam un, sy'n cynnwys argymhellion penodol yng nghyd-destun y llwybr cyfeirio ac asesu; y polisi rheoli rhestrau aros; staffio, gan gynnwys hyfforddiant; rôl peirianneg adsefydlu a'r gwasanaeth cynnal a chadw; yn ogystal â materion yn gysylltiedig ag ariannu ac ansawdd gwasanaeth. Bydd Cam Dau yr adolygiad, a fydd yn ceisio datblygu cynlluniau penodol ar gyfer y gwasanaeth, yn cychwyn yn gynnar yn 2010. Byddaf yn gwneud datganiad i gadarnhau cyfeiriad Cam Dau yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Bydd y datganiad ar y gyllideb derfynol, a fydd yn cael ei gyhoeddi cyn hir, yn darparu arian ychwanegol i wasanaethau cadair olwyn i oedolion a phlant, a fydd yn lleihau amseroedd aros am asesiadau a derbyn cadeiriau olwyn.

Fy mhrif flaenoriaeth fydd mynd i'r afael ag amseroedd aros hir i blant ledled Cymru, ac i oedolion, yn enwedig yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru.